

**GERBRON Y GWIR ANRHYDEDDUS FARWNES HEATHER HALLETT
YN Y MATER: YMCHWILIAD CYHOEDDUS I ARCHWILIO'R PANDEMIG COVID-19 YN Y
DU**

**DATGANIAD CLOI AR RAN GRŴP TEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH COVID-19 ER
MWYN CYFIAWNDER CYMRU ('CBFJ CYMRU') - MODIWL 2B**

1. Mae CBFJ Cymru yn grŵp o deuluoedd Cymraeg mewn profedigaeth a ddaeth ynghyd i ymgychu dros wirionedd, cyfiawnder, ac atebolrwydd i bawb sydd wedi dioddef profedigaeth oherwydd Covid-19 yng Nghymru, yn dilyn colled enbyd eu hanwyliaid dan yr amgylchiadau mwyaf trawmatig. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn gofyn i'r Ymchwiliad farnu eu gweithredoedd ar sail yr hyn oedd yn rhesymol ar y pryd gan awgrymu *"to have taken one reasonable course when an alternative reasonable option was also available does not make the course taken wrong or in some way flawed"*. Fodd bynnag, mae CBFJ Cymru yn cymeradwyo'r dull a ddefnyddiwyd yn agoriad Cwnsler i'r Ymchwiliad (CTI) i feirniadu penderfyniadau, sef mai'r hyn y mae'n rhaid ei graffu yw a yw LIC wedi cyflawni ei dyletswydd i amddiffyn bywydau pobl Cymru. Mae'n rhaid i hyn gael ei ystyried trwy archwilio a herio'r penderfyniadau craidd *"to see if they were made on the best information, after proper consultation, as part of a well ordered process, and without undue delay or unnecessary prevarication"*. Fel y nodwyd gan CTI wrth agor *"if the protection of life is the pre-eminent duty which every government owes to its people, then the numbers of those who died is the marker against which the Welsh Government's response must be judged. This is the simple metric which matters most. Death was the inevitable consequence of a runaway high-consequence infectious disease and prevention of death should arguably have been the Welsh Government's primary obligation"*.¹ Fel y cadarnhawyd yn nhystiolaeth yr Athro Syr Ian Diamond, roedd cyfradd marwolaethau safonedig yn ôl oedran Cymru ar yr un lefel â Lloegr ac yn sylweddol uwch na chyfradd yr Alban.² Mae CBFJ Cymru yn siomedig gyda'r diffyg atebolrwydd a methiant i sicrhau bod cofnodion cywir yn cael eu cadw ynghylch y defnydd o WhatsApps ar gyfer busnes y llywodraeth. Roedd LIC yn anghywir i ddefnyddio cyfathrebu anffurfiol yn ystod argyfwng cenedlaethol ac yn anghywir i beidio â sicrhau bod yr holl gyfathrebu yn cael ei gadw.

Ymateb Cynnar (Ionawr i Fawrth 2020)

2. Roedd ymateb cychwynnol LIC yn oddefol, yn araf ac yn ddatgymalog; cafodd risg ei chamddeall, roedd arweinyddiaeth strategol genedlaethol yn brin a chollasant amser gwerthfawr rhwng Ionawr a Mawrth 2020.
3. Roedd rhybuddion clir o ddiwedd Ionawr 2020 y gallai'r hyn oedd yn digwydd yn rhyngwladol ddigwydd yng Nghymru cyn bo hir. Rhoddod Prif Swyddog Meddygol Cymru, Syr Frank Atherton, rybudd i Brif Weinidog Cymru erbyn 24 Ionawr 2020: *"there was a significant risk the virus would arrive in Wales"*.³ Yn

¹ M2B Transcript [1/8/2-10]

² M2B Transcript [3/78/15-18]

³ INQ000371209/23

y cyfarfod COBR ar 29 Ionawr 2020, a fynychwyd gan Mr. Vaughan Gething a Syr Frank, cadarnhaodd UKG ei bwriad i baratoi ar gyfer y senario achos gwaethaf rhesymol (RWCS) a oedd yn debyg i'r sefyllfa ar gyfer pandemig fflw.⁴ Ar 30 Ionawr 2020, cynyddodd y pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU y lefel risg yn ffurfiol o isel i gymedrol,⁵ (y cyfeirir ato yn agoriad CTI ym Modiwl 2 (M2)(1/30/13) a datganiad cloi Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol⁶). Datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd gan LIC ar 31 Ionawr 2020, dan y pennawd "*Statement from the Chief Medical officer for Wales about Coronavirus*", gosod allan hynny "*the four UK Chief Medical Officers consider it prudent for governments and the NHS to escalate planning and preparation in case of a more widespread outbreak. For that reason, we are advising an increase of the UK risk level from low to moderate.... the UK should plan for all eventualities*" and "*It is likely that Wales will see cases of novel coronavirus*".⁷ Mae Mr. Gething, yn ei ddatganiad tyst, yn cydnabod y cynnydd yn y lefel risg i gymedrol ar y pryd.⁸ Mewn e-bost a dderbyniwyd gan Syr Frank gan DHSC ar 5 Chwefror 2020, fe'i hysbyswyd o eiriau'r Athro Syr Chris Whitty i Gyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd ar 31 Ionawr 2020: "*We are currently using pandemic flu for reasonable worst case scenario planning*" a "*planning for mitigation now is wise*".⁹

4. Yn wyneb yr holl rybuddion hyn, erbyn diwedd Ionawr/dechrau Chwefror 2020, dylai LIC fod wedi'i thrydaneiddio, ond mae'n amlwg o'r dystiolaeth nad oedd. Dylid nodi bod tybiaethau cynllunio pandemig fflw RWCS yng Nghymru wedi'u rhagosod ar 50% o'r boblogaeth yn profi symptomau, y byddai 1-4 % ohonynt angen triniaeth ysbyty, a 12,000-15,000 o farwolaethau ychwanegol mewn ton 15 wythnos.¹⁰ Ni thrafododd LIC Covid-19 yn y Cabinet tan 25 Chwefror 2020, er gwaethaf goblygiadau'r tybiaethau cynllunio hyn. Roedd tystiolaeth lafar Mr. Drakeford ar ymateb LIC i'r firws rhwng Ionawr a Chwefror 2020, yn gyfystyr â thrafodaethau anffurfiol gyda Mr. Gething yn dilyn cyfarfodydd COBR¹¹. Y datganiad mwyaf arwyddocaol oedd ei ddatganiad "*at that point [Covid-19] is happening elsewhere*".¹² Dywed fod y "*signals*" ddim yno ar y pryd ac y "*primary signal*" i ddechrau symud fyddai'r Prif Swyddog Meddygol yn newid y risg o isel i gymedrol.¹³ Fodd bynnag, roedd yr asesiad risg wedi newid o isel i gymedrol ar 30 Ionawr 2020, felly, yn syml, nid yw'n glir a oedd yn anymwybodol o'r newid neu wedi methu â chanolbwyntio ar lefel y risg i bobl yng Nghymru. Tra y cydnabu Mr Drakeford bod yna "*very plausible case*" i ddweud y dylai LIC fod wedi bod yn gwneud paratodau cynharach trwy Ionawr a Chwefror 2020, fe wnaeth y gydnabyddiaeth hon yn unig "*with the lens of hindsight applied to it*", gan ddweud, "*If we knew then what we know now. There are many things we might have done differently with better knowledge*".¹⁴ Ni ellir yn synhwyrol ystyried methiant i weithredu'n gynharach fel mater o edrych yn ôl.
5. Roedd Dr Andrew Goodall hefyd yn aneglur ynghylch beth oedd yr asesiad risg mewn gwirionedd yn y cyfnod cynnar. Yn ei dystiolaeth lafar, mewn ymateb i gwestiwn ynghylch a ddylai Grŵp Cynllunio ac

⁴ INQ000056226/5

⁵ M2: INQ000203938

⁶ M2: INQ000399529/7

⁷ INQ000048722

⁸ INQ000391237/38

⁹ INQ000383585/1

¹⁰ INQ000083240/7

¹¹ M2B Transcript [11/47/4 - 11/48/13]

¹² M2B Transcript [11/46/21-22]

¹³ M2B Transcript [11/49/25 - 11/50/3]

¹⁴ M2B Transcript [11/51/8-10]

Ymateb Covid-19 iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod wedi cyfarfod yn gynharach na 20 Chwefror 2020, dywedodd, “*Through February, the overall UK assessment was...was low, it changed to moderate at the end of February.*”¹⁵ Fel y nodwyd uchod, roedd y lefel risg ffurfiol eisoes yn gymedrol erbyn diwedd Ionawr 2020. Yn anesboniadwy, methodd Syr Frank, er ei fod yn un o'r penderfynwyr a oedd yn asesu lefel y risg, nodi'n gywir y ei ddatganiad tyst y dyddiad newidiodd lefel y risg: “*At the end of February, UK CMOs assessed the risk to the UK as moderate noting the criteria that would trigger a re-assessment of the UK response*”.¹⁶

6. Mae'r dystiolaeth yn dangos, a dylai'r Ymchwiliad ganfod, y bu methiant ar lefelau uchaf LIC i fynd i'r afael â natur a maint y risg yn y cyfnod cynnar a'i nodi'n glir. O ran datganiad 4 Prif Swyddog Meddygol y DU ar 30 Ionawr 2020 o'r lefel risg fel cymedrol (a datganiad Prif Swyddog Meddygol Cymru ei hun ar 31 Ionawr 2020), roedd naill ai methiant sylweddol gan LIC i gyfleu'r asesiad hwnnw neu methiant i'w ystyried.
7. Roedd cofnodion cyfarfod cyntaf y Cabinet i ystyried bygythiad y feirws, ar 25 Chwefror 2020, yn cynnwys y datganiad gwallus ar y pwynt hwnnw: “*there had been no imported cases into the UK*”.¹⁷ Nid yn unig na chafodd y gwall yn y cofnodion ei ganfod a'i gywiro ond fe'i hailadroddwyd yn natganiadau tyst Mr Drakeford a ¹⁸ Mr. Gething.¹⁹ At hynny, nid yw'r cofnodion yn cofnodi trafodaeth ar gynllun mewn ymateb i'r firws, dim ond yn dweud, i gloi: “*Ministers would be meeting on a regular basis to consider the implications of the spread of the virus and Cabinet would be provided with a briefing note.*”²⁰ Dylai'r Ymchwiliad ganfod bod y materion hyn yn sôn am y diffyg ffocws ar y pryd ar y bygythiad oedd ar fin dod. Pe bai dwyster y craffu a'r ffocws yn gymesur â'r bygythiad bryd hynny (pan roedd Covid-19 wedi cyrraedd y DU) byddai atgofion yn gliriach, byddai'r gwall yn y cofnodion wedi sefyll allan, ac ni fyddai datganiadau tystion wedi'u llofnodi. gan benderfynwyr allweddol yn ailadrodd gwall o'r fath.
8. Dylai LIC fod wedi gweithredu'n gynt hyd yn oed os a oedd yn disgwyl bod Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 ('CCA 2004') yn mynd i gael ei defnyddio. Hyd yn oed pe bai Llywodraeth y DU yn gwneud y penderfyniadau terfynol ar NPIs, dylid bod wedi gwerthfawrogi y byddai angen ymateb o hyd i'r pandemig ym meysydd datganoledig iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd angen i LIC wneud cyfraniad gwybodus at unrhyw benderfyniadau pa bynnag fframwaith cyfreithiol a ddefnyddiwyd. Er enghraifft, dylai LIC fod wedi bod yn mynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod mesurau NPIs ar waith, ysbytai wedi'u paratoi â chapasiti ymchwydd, bod cartrefi gofal yn gwybod beth i'w wneud. Dylent fod wedi dechrau'n gynharach i archwilio'r PPE, cysylltu â phartneriaid allweddol, a sefydlu fforymau ymgynghori effeithiol gan ragweld y tebygolrwydd y byddai'r feirws yn cyrraedd Cymru. Mae'r union fathau o fesurau ataliol y gallai, ac y dylai LIC fod wedi bod yn eu rhoi ar waith, wedi'u nodi yng nghyflwyniad Dr Quentin Sandifer dyddiedig 28 Chwefror 2020. ²¹ Yn lle hynny, rhoddwyd pwys gormodol ar y ffaith nad oedd y feirws wedi cyrraedd yng Nghymru eto, a ailadroddwyd yr hyn gan lawer o dystion LIC, er enghraifft, yn natganiad tyst Mr Drakeford:

¹⁵ M2B Transcript [6/25/14-16]

¹⁶ INQ000391115/34

¹⁷ INQ000129852/6

¹⁸ INQ000371209/25 Para 77

¹⁹ INQ000391237/41 Para 164

²⁰ INQ000022466

²¹ INQ000309714/8

*“we went through January and February 2020 without seeing any direct impact from the virus. As we entered March 2020 Covid-19 and its seriousness became more apparent.”*²² Mae hyn yn anwybyddu'r ffaith bod Covid-19 wedi cyrraedd y DU erbyn 29 Ionawr 2020 a'r modd y byddai'n lledaenu.

9. Roedd lechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn weithgar o ganol i ddiwedd Ionawr 2020 ac erbyn 27 Ionawr 2020, roesdynt yn asesu a phrofi achosion a amheuir ledled Cymru.²³ Roedd anfodlonrwydd tystion ICC Dr Quentin Sandifer, Dr Tracey Cooper a Dr Chris Williams, ar ddiffyg gweithredu LIC yn ystod y cyfnod cynnar yn amlwg o'u dystiolaeth. Mae CBFJ Cymru yn gofyn, os gallai ICC weld y pandemig *“coming down the line”*²⁴ pam na allai LIC? Dylai'r Ymchwiliad ganfod bod y teimladau a fynegwyd gan Dr Sandifer yn gywir ac wedi'u hategu gan y dystiolaeth: dywed *“What I think was missing in the first few weeks from 8 January 2020 when I first became aware to 20 February 2020 when the Health and Social Services Group Coronavirus Planning and Response Group first met, was national strategic leadership and co-ordination from Welsh government”*.²⁵ Roedd Mr. Drakeford yn ddiystyriol o feirniadaeth Dr Sandifer, gan nodi yn ei dystiolaeth lafar, *“The fact that he's unable to see something happening does not mean it is not happening”*,²⁶ ond, hyd yn oed ar addefiad Mr. Drakeford ei hun, ychydig oedd yn cael ei wneud yn y cyfnod cynnar hwnnw. Nid oedd tystion LIC yn gallu rhoi manylion o gamau gweithredu y tu hwnt i *“awareness”*²⁷ o Covid-19 neu *“issuing statements to the Senedd”*.²⁸
10. Fel enghraifft o'r diffyg arweinyddiaeth, rhoddodd Dr Sandifer ei brofiad lle roedd angen iddo ofyn i Fyrddau lechyd baratoi ar frys ar gyfer ymdrin ag achosion o Covid-19 yn ystod wythnos 27 Ionawr 2020: ni allai ddweud wrth Brif Weithredwr lechyd Bwrdd neu Ymddiriedolaeth GIG beth i'w wneud: roedd angen mewnbwn LIC gydag awdurdod i gyfarwyddo ar gyfer hynny. ²⁹ Yn hytrach na mynychu digwyddiad diwylliannol ym Mrwsel ar 4 Mawrth 2020 byddai Mr. Drakeford wedi gwasanaethu pobl Cymru yn well drwy fynychu COBR a gwerthuso ei hun o feddwl oddi mewn ICC.
11. O ran amseriad y cyfnod cloi Cenedlaethol cyntaf, datganwyd gan Robert Hoyle, Dr Williams, Dr Cooper, yr Athro Gravenor, a Dr Sandifer yn eu dystiolaeth eu barn y dylai'r cyfnod cloi fod wedi'i gyflwyno'n gynharach; y consens³⁰ oedd y byddai hyd at bythefnos ynghynt ³¹edi bod yn ³²ell. Roedd papur TAG dyddiedig 20 Gorffennaf 2020, *‘A Calibrated Local Authority Level COVID-19 Epidemic Policy Model for Wales’* yn modelu cyfnod cloi yn cael ei gyflwyno 5 diwrnod ynghynt, lle amcangyfrifwyd y gallai 24% o farwolaethau yn y don gyntaf fod wedi'u hatal.³⁰ Dywedodd Mr Drakeford yn ei dystiolaeth mai dim ond ar 21 a 22 Mawrth 2020 y trafodwyd cynllun cyfnod cloi ar gyfer Cymru.³¹ Mae CBFJ Cymru yn cwestiynu pam nad oedd mesurau llymach yn cael eu trafod yn gynharach o fewn LIC a hyd yn oed os (fel y dywed penderfynwyr LIC) ei bod yn afrealistig y byddai Cymru'n symud i gyfnod cloi llawn cyn gweddill y DU yn

²² INQ000371209/24

²³ INQ000267867/8

²⁴ M2B Transcript [6/147/16-18]

²⁵ INQ000267867/38

²⁶ M2B Transcript [11/58/11-13]

²⁷ M2B Transcript [6/47/8]

²⁸ M2B Transcript [9/52/4-5]

²⁹ M2B Transcript [7/32/3-9]

³⁰ INQ000302585/7

³¹ M2B Transcript [11/101/25 - 11/102/8]

y don gyntaf, gallai LIC fod wedi bod yn rhoi pwysau ar COBR am ymateb llymach cynharach a allai fod wedi achub mwy o fywydau.

Trawsyrriad Asymptomatig

12. Dywed CBFJ Cymru y dylai'r posibilrwydd o drawsyrriad asymptomatig fod wedi'i gydnabod a'i gynnwys yn y broses o wneud penderfyniadau yn y cyfnod cynnar, yn hytrach na'i anwybyddu, fel oedd yn wir, oherwydd nad oedd lefel ffurfiol o brawf yn bodoli eto. Roedd anwybyddu's posibilrwydd yn fyrbwyll o ran y risg i'r rhan o'r boblogaeth oedd yn agored i niwed gan ganlyniadau trychinebus. Gofynnir i'r Ymchwiliad nodi tystiolaeth Dr Chris Williams, *"it's always worth considering on the precautionary basis what might be transmission routes"*.³²
13. Roedd digon o dystiolaeth gynnar bod trawsyrriad asymptomatig yn bosiblwydd. Ar 20 Chwefror 2020, anfonodd Dr Rob Orford e-bost, 'SAGE: Coronavirus Update 4' yn cynghori *"From cruise ship – 30-50% asymptomatic-mild"*.³³ Ymhellach, roedd adroddiad SAGE dyddiedig 12 Chwefror 2020 yn nodi, *"Asymptomatic transmission cannot be ruled out and transmission from mildly symptomatic individuals is likely."*³⁴ Yng nghyfarfod NERVTAG ar 21 Chwefror 2020 *"NF noted that there were a few modelling groups estimating a higher infection rate when comparing case populations in Singapore, South Korea and Japan, this suggests that at least a third have been missed. JE commented on this after the meeting taking into account the issue of asymptomatic cases, where the evidence suggests that 40% of virologically confirmed cases are asymptomatic."*³⁵ Cadarnhaodd Dr Williams yn ei dystiolaeth fod posibilrwydd heintiau asymptomatig cymaint â 40% *"would have been part of the thinking by late February"*.³⁶ Mae'n anodd deall felly sut y gallai Mr. Gething a Mr. Drakeford barhau i wadu arwyddocâd y risg o drosglwyddo asymptomatig, tan yn ddiweddarach yn 2020. Roedd goblygiadau i hyn yn arbennig ar gyfer polisi ar brofi (gweler isod).

Trawsyrriad Awyrol

14. Mae CBFJ Cymru wedi pwysleisio yn eu datganiadau yn M2 ac yn natganiad agoriadol y Modiwl hwn bwysigrwydd gwneud penderfyniadau ar sail dealltwriaeth gywir o'r dull o drawsyru'r firws. Roedd y wybodaeth wyddonol yn bodoli o'r dechrau'n mai firws yn yr awyr oedd hwn. Rhoddodd Dr Robert Hoyle, Pennaeth Gwyddoniaeth yn LIC ac aelod o TAG, dystiolaeth o hynny *"there was a lot of debate about whether it was actually an airborne virus or whether it was passed by touching or fomites [...] [His] view at the time that it was pretty obvious that it was an airborne -- mainly airborne transmissible virus."*³⁷ Tystiolaeth yr Athro Syr Chris Whitty yn M2 oedd bod sawl llwybr trawsyrriad posibl wedi'u cydnabod yn gynnar a symudodd y farn gyffredinol i drawsyrriad aerosol ataliedig fel rhywbeth mwy pwysig nag y tybiwyd yn wreiddiol, gan arwain at fwy o bwyslais ar rôl awyru.³⁸ Gwnaeth yr Athro Catherine Noakes yn M2 y

³² M2B Transcript [4/45/9-10]

³³ INQ000384621/1

³⁴ INQ000320718

³⁵ INQ000119469/6 Para 3.4

³⁶ M2B Transcript [4/46/19-20]

³⁷ M2B Transcript [3/185/3-8]

³⁸ [M2 INQ000248853/100]

pwytnt pwysig y dylai pobl fod wedi bod yn fwy ymwybodol o'r mesurau lliniaru perthnasol ar gyfer trawsyriad aerosol.³⁹

15. Yn erbyn y cefndir hwn, mae CBFJ Cymru eisiau gwybod a oedd LIC wedi ymchwilio'n briodol i'r holl fesurau perthnasol i atal trawsyriad aerosol, yn enwedig mesurau niwed isel gan gynnwys y mathau mwyaf effeithiol o fasgiau, negeseuon cyhoeddus a chamau gweithredu ar gyfer awyru dan do gwell gan gynnwys mewn ysbytai. Am y rhesymau a nodir ymhellach ymlaen yn y datganiad hwn, dylai'r Ymchwiliad ganfod bod penderfyniadau LIC ar fasgiau addas yn wir yn annigonol. O ran awyru, er y deallir o dystiolaeth lafar Dr Cooper o ICC bod canllawiau ar awyru, bydd yn bwysig archwilio yn y modiwlau yn y dyfodol i ba raddau y cydnabuwyd yr angen am awyru dan do a sut y cymerwyd hyn ymlaen yn y sector gofal cymdeithasol ac yn hollbwysig mewn ysbytai.
16. Barn CBFJ Cymru yw nad yw'r dystiolaeth a godwyd yn yr Ymchwiliad hwn hyd yma yn dangos bod LIC yn ymdrechu i ddeall y dulliau trawsyrru nac yn gwneud y mwyaf o'r potensial ar gyfer defnyddio ymyriadau niwed isel effeithiol i atal trawsyriad aerosol. Mae'r grŵp yn gobeithio y bydd tystiolaeth bellach ar y mater hwn mewn perthynas â gofal cymdeithasol ac ysbytai ym modiwlau'r dyfodol.

Cynulliadau Torfol

17. Gofynnodd Mr. Drakeford am gyngor ar gynulliadau torfol am y tro cyntaf ar 9 Mawrth 2020⁴⁰. Holodd Mr Drakeford pam fod gwledydd eraill yn gwahardd cynulliadau torfol a gofynnodd am gadarnhad o'r sail wyddonol dros beidio â'u gwahardd. Dylid bod wedi rhagweld a cheisio cyngor ar y mater yn gynharach. Erbyn 11 Mawrth 2020, derbyniodd LIC gais gan Undeb Rygbi Cymru am arweiniad yn wyneb y gêm rygbi rhwng Cymru a'r Alban a oedd i'w chynnal ar 14 Mawrth 2020. Cynhyrchodd Dr Orford bapur briffio technegol ar gyfer Prif Weinidog Cymru, ar 11 Mawrth 2020, ynglyn a chynulliadau torfol ac ymyriadau ymddygiadol⁴¹. Dywed, *"Only a modest reduction in the infection related deaths (2%) is predicted for restricting mass gatherings. This is due to the limited exposure time (5.3% of total time), even if the transmission risk is weighted higher. Other measures that impact other more common activities, such as work and home (e.g. self-isolation of symptomatic individuals) have a greater impact on reduction of deaths (11%)"*.
18. Cynhaliwyd Cyfarfod Grŵp Craidd Covid-19 ar 11 Mawrth 2020⁴². Erbyn hyn roedd 15 achos yng Nghymru a thystiolaeth o drosglwyddo cymunedol yn digwydd. Dywedwyd *"ministers agreed that there would be a need for further discussions about the policy on mass gatherings, such as sporting and cultural events. The science suggested that such bans would reduce mortality rates by 2%, but there was a need to consider the social impact, the size of events, and whether they were outdoor or enclosed. There were also questions about mass transport hubs. However, it would be difficult to justify not cancelling events, particularly when the Government was advising households to go into quarantine."*

³⁹ M2 Transcript [13/17/10 – 13/18/5]

⁴⁰ INQ000271446

⁴¹ INQ000271613

⁴² INQ000215171

19. Ar 12 Mawrth 2020 mynychodd Mr. Drakeford a Mr. Gething COBR⁴³. Dywedodd Prif Gynghorydd Gwyddonol y Llywodraeth fod amcangyfrif o 5,000-10,000 o achosion yn y DU ac yn cynyddu. Hysbyswyd y cyfarfod y byddai niferoedd yn cynyddu'n gyflym a bod disgwyl i'r DU ddilyn trywydd tebyg i'r Eidal. Ar gynulladau torfol mae'r cofnodion yn nodi, *"The hardest intervention to call was whether to cancel mass gatherings as the evidence was not there, especially for outdoor events"* ac fod y *"Scottish Government was minded to advise against gatherings of more than 500 people. Their rationale for this to ensure the frontline emergency workers were able to prioritise the response to COVID-19"*.
20. Ar 13 Mawrth 2020 canslodd Cymdeithas Bêl-droed Cymru (FAW) gêmâu pêl-droed tan 4 Ebrill 2020. Ar yr un diwrnod cafodd Dr Robin Howe a Dr Cooper o ICC sgwrs â Mr Gething, gan fynegi pryder sylweddol bod gêm Cymru v Yr Alban yn parhau i ddigwydd. Yn ei dystiolaeth lafar, dywedodd Mr. Gething ar 13 Mawrth 2020 bod camau gweithredol yn cael eu cymryd gan LIC i *"turn off lots of regular NHS activity"*.⁴⁴ Yn erbyn y cyd-destun hwn, gwrthododd LIC ganslo gêm Cymru v Yr Alban, gan adael i Undeb Rygbi Cymru wneud y penderfyniad (a gwnaethant ganslo'r gem). Mae'n amlwg, a derbyniodd LIC mewn tystiolaeth lafar, y byddai Cymru v Yr Alban ar 14 Mawrth 2020 yn rhagweladwy yn golygu bod llawer iawn o bobl (20,000) yn teithio i Gaerdydd ac yn cyfarfod mewn bariau. Mae LIC bellach yn derbyn y byddai wedi bod yn ddoeth canslo'r gêm ac i gynghori yn erbyn cynulladau torfol yn gyffredinol gan y byddai hyn wedi rhoi'r arwydd cywir i'r cyhoedd. Yn siomedig, gwnaeth tystion y cyfaddefiad hwn gyda'r cafeat cryf bod hyn ar sail edrych yn ôl.
21. O'r gronoleg uchod mae'n amlwg bod LIC yn ymwybodol ar y pryd: i) bod gwledydd eraill yn cyfyngu ar gynulladau torfol; ii) cyfraddau cynyddol trawsyriad cymunedol; iii) y byddai cyfyngu ar gynulladau torfol yn arwain at ostyngiad o 2% mewn masnacholaethau; iv) bod Llywodraeth yr Alban o'r farn y byddai cyfyngu ar gynulladau torfol yn lleddfu'r pŷysau ar ÷eith÷yr brys rheng flaen; v) bod rhanddeiliaid pŷysig megis ICC ac Undeb Rygbi Cymru yn pryderu'n fawr ynghylch caniatáu i gynulladau torfol barhau; vi) bod camau yn cael eu cymryd gan eraill e.e. FAW, i gyfyngu ar ddigwyddiadau torfol; vii) y negeseuon cyhoeddus cymysg sy'n gynhenid i beidio â chanslo digwyddiadau tra'n cynghori i gartrefi i hunan ynysu; viii) bod camau gweithredol yn cael eu cymryd i gyflwyno cyfyngiadau yn y GIG.
22. Yn ei dystiolaeth, gwnaeth Mr. Gething gymhariaeth rhwng digwyddiadau dan do ac awyr agored ac *'cultural significance'* rygbi⁴⁵ sy'n eithaf syfrdanol o ystyried cyd-destun y risg o golli bywyd dynol a beth bynnag nid yw'n esbonio pam y caniatodd LIC i ddau gyngerdd Stereophonics gael eu cynnal ar 14 a 15 Mawrth 2020. Y gwir amdani yw, er gwaethaf yr hyn a oedd yn hysbys i LIC ar y pryd, ni roddodd unrhyw ystyriaeth ystyrlon i gyfyngu ar gynulladau torfol. Glynodd at yr haerriad nad oedd y wyddoniaeth yn cefnogi cyfyngiadau ar gynulladau torfol, a oedd yn gamarweiniol. Mae hefyd yn amlwg bod dryswch annerbyniol o fewn LIC ynghylch a oedd ganddi'r pŵer i osod cyfyngiadau ar gynulladau torfol. Rhoddodd Jeremy Miles gyngor ar 13 a 20 Mawrth 2020 yn cynghori yn erbyn defnyddio pwerau iechyd cyhoeddus i gyfyngu

⁴³ INQ000056221

⁴⁴ M2B Transcript [9/102/5-7]

⁴⁵ Module 2B Transcript [09/107/11]

ar gynulladau torfol a gosod cyfnod cloi. Defnyddiwyd pwerau iechyd cyhoeddus wedi hynny gan LIC, felly roedd y cyngor cychwynnol yn anghywir ac yn arwydd o ymateb cynnar anhrefnus LIC. Mae'r uchod yn dangos ymwrthod llwyr â chyfrifoldeb gan LIC a diffyg arweinyddiaeth strategol.

PPE

23. O'r cychwyn cyntaf, roedd yn amlwg pe bai Covid yn cyrraedd Cymru y byddai angen PPE ac o bosibl llawer iawn ohono fe yn gyflym iawn. Fel y cadarnhaodd tystiolaeth lafar Mr. Gething, daeth yn amlwg nad oedd gan LIC y pentyrrau yr oedd yn meddwl roedd ganddi. Cadarnhaodd y dystiolaeth a roddodd i'r Ymchwiliad yn M1, fod y pentwr stoc PPE yng Nghymru wedi troi allan i fod yn annigonol hyd yn oed ar gyfer pandemig fflw⁴⁶. Yn wyneb bygythiad dyfodiad y coronafeirws newydd i Gymru mae'n anodd deall pam na thybiwyd bod angen cymryd camau ar unwaith i gadarnhau beth oedd cynnwys y pentwr stoc ac ymdrin â bylchau a phroblemau. Fodd bynnag, clywodd yr Ymchwiliad na ddechreuodd y grŵp oedd gyda'r dasg o gydgyssylltu a goruchwyllo gweithredol ar gyfer PPE – y Grŵp Gwrthfesuau Iechyd – ar ei waith tan 12 Chwefror 2020, sy'n dangos roedd diffyg brys trawiadol wrth nodi a meddwl trwy y materion o ran cyflenwad a chyflwyno PPE. Mae cofnod cyfarfod cyntaf y grŵp yn dangos cafodd restr "i'w gwneud" wedi'i llunio o gamau ymarferol i'w cymryd i nodi beth oedd ei angen a bylchau yn y pentwr stoc.⁴⁷ Mae'n anodd deall pam na ddechreuwyd yn gynt ar y gwaith hwn o oruchwyllo a chydlynu parodrwyd yn y maes hollbwysig hwn.
24. Dangosodd y dystiolaeth fod cymorth gyda PPE ar gyfer y sector gofal cymdeithasol gan LIC yn araf ac ar y dechrau yn brin. Ni chymerwyd y penderfyniad cyntaf gan LIC i roi cymorth i'r sector hwn tan 19 Mawrth 2020 pan gyhoeddwyd Datganiad Ysgrifenedig gan Mr. Gething, a ddywedodd hyd nes y gwneir trefniadau ar gyfer dosbarthu i awdurdodau lleol, y gallai darparwyr gofal gysylltu â byrddau iechyd lleol am gymorth brys, ond ni ellid defnyddio'r trefniadau hyn oni bai bod achos o Covid-19 wedi'i gadarnhau.⁴⁸ Fe wnaeth y WLGA "*escalated significant concerns about the limited availability of PPE from the WG stocks for social care staff, including lack of clarity on stock levels and inconsistent and incomplete supplies being made available across authorities,*" and says "*concerns about the supply of PPE dominated early discussions between leaders and Ministers*".⁴⁹
25. Mae'r dystiolaeth yn dangos bod problemau difrifol gyda PPE wedi parhau ymhell i fis Ebrill 2020, ac roedd tystiolaeth o'r ffaith bod y BMA a TUC Cymru yn teimlo bod angen cyhoeddi datganiad ar y cyd ar 12 Ebrill 2020 yn galw am sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod staff iechyd a gofal cymdeithasol yn cael y PPE yr oedd ei angen arnynt.⁵⁰ Nid oes amheuaeth bod y rhai yr oedd gwir angen PPE arnynt yn ystod yr wythnosau cynnar hyn wedi'u methu'n ddifawr gan LIC.

Gorchuddion wyneb

26. Mae LIC wedi caractereiddio eu gweithredoedd yn a pandemic fel petaent yn wylidwrus ac eu bod ddim ond wedi ymwahanu oddi wrth Lywodraeth y DU pan fyddai gwneud hynny er lles gorau pobl Cymru. Mae'r

⁴⁶ Module 2 B Transcript [9/41/22 – 43/3]

⁴⁷ INQ000298968

⁴⁸ INQ000252549

⁴⁹ INQ000082940/3

⁵⁰ INQ000180916

naratif hwn yn cael ei danseilio'n sylfaenol gan ddull LIC o ymdrin â gorchuddion wyneb. Roedd Cymru'n hwyrach na'r holl genhedloedd eraill o ran cynghori a/neu orfodi gorchuddion wyneb. Bellach mae corff mawr o dystiolaeth sy'n dangos effeithiolrwydd gorchuddion wyneb wrth leihau trawsyriad, er y darperir amddiffyniad nid i'r gwisgwr, ond i eraill.⁵¹ Mae'n ymddangos bod Syr Frank yn ffynhonnell allweddol o amheuaeth dros gorchuddion wyneb o fewn LIC. Gwaethygydd hyn gan fethiant y gweinidogion – yn arbennig Mr. Drakeford a Mr. Gething – i gwestiynu'r cyngor gwyddonol yn drylwyr a dod i gasgliadau annibynnol ynghylch pa NPIs oedd er lles gorau'r cyhoedd. Mae tystiolaeth Mr. Drakeford, sef bod angen iddo ddilyn cyngor Frank Atherton bob amser er mwyn osgoi tanseilio ei safbwynt ar NPIs⁵², yn adlewyrchu tueddiad i guddio y tu ôl i sgertiau cyngor gwyddonol yn hytrach na gwneud penderfyniadau'n annibynnol sy'n cael eu llywio gan y cyngor gwyddonol serch hynny.

27. Ar 28 Ebrill 2020, cynghorodd Llywodraeth yr Alban ddefnyddio masgiau wyneb wedi eu gwneud allan o ddefnydd mewn mannau caeedig ac ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ar 7 Mai 2020, argymhellodd gweithrediaeth Gogledd Iwerddon gorchuddion wyneb mewn mannau caeedig lle nad oedd yn bosibl cadw pellter cymdeithasol. Rhoddwyd cyngor tebyg yn Lloegr ar 11 Mai 2020. Nid tan 9 Mehefin 2020 y gwnaeth LIC argymhell gorchuddion wyneb mewn amgylchiadau lle nad yw cadw pellter cymdeithasol yn bosibl.
28. Y sbardun ar gyfer newid sefyllfa LIC o ran gorchuddion wyneb oedd cyngor WHO ar 5 Mehefin 2020.⁵³ Y "*main change*"⁵⁴ yng nghyngor WHO oedd y dylai pobl agored i niwed (a ddiffinnir fel rhai dros 60 oed a'r rhai â chyd-forbidrwydd sylfaenol) wisgo gorchuddion wyneb gradd feddygol, hyd yn oed mewn lleoliadau risg isel.⁵⁵ O ganlyniad, gofynnodd LIC am gyngor gan TAG a TAC. Daeth TAG ynghyd ar 5 Mehefin 2020 lle trafodwyd gorchuddion wyneb.⁵⁶ Roedd Lloegr eisoes wedi cyhoeddi y byddai'n mandadu gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus o 15 Mehefin 2020. Cynhyrchodd TAC gyngor dyddiedig 8 Mehefin 2020 ar gais LIC.⁵⁷ Mae dau bwynt pwysig i'w nodi o'r cyngor hwn. Y cyntaf yw'r cyfeiriad at fasgiau sy'n peri risg o newid yn ymddygiad. Mae hyn yn cyd-fynd â datganiad tyst Syr Frank lle mae'n dweud mai un o'i bryderon oedd y gallai gwisgo gorchuddion wyneb hybu ymddygiadau peryglus.⁵⁸ Mae hwn yn amlwg yn gwestiwn i wyddonwyr ymddygiadol, ond ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw wyddonwyr ymddygiadol ar TAG na TAC; ni gysylltodd Ms Fliss Bennee a'r Athro Ann John tan 2 Mehefin 2020. Ymunodd yr Athro Ann John â TAG ar y 17 Mehefin 2020, ac ni gyfarfu is-grŵp RCBI tan 22 Gorffennaf 2020.⁵⁹ Fel y cyfryw, pan roedd TAG a TAC yn rhoi cyngor ar orchuddion wyneb ac yn gwneud tybiaethau ynghylch sut y gallai gorchuddion wyneb effeithio ar ymddygiad, roeddent yn gwneud hynny mewn gwagle tystiolaethol ac wedi methu i amlygu eu diffyg arbenigedd mewn gwyddor ymddygiad. Felly nid oedd y risg y byddai gorchuddion wyneb yn hyrwyddo ymddygiadau peryglus yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn. Er mai Syr Frank sy'n gyfrifol yn y pen draw am y cyngor gwyddonol a roddwyd i Lywodraeth Cymru, roedd yn ddyletswydd ar

⁵¹ see EMG Consensus statement, SAGE 96, INQ000311901 INQ000196751

⁵² M2B Transcript [11/97/8-19] [11/98/5-10] [11/137/12 - 11/138/15]

⁵³ INQ000327606/9-24

⁵⁴ INQ000274878

⁵⁵ INQ000327606/15

⁵⁶ INQ000313097 and INQ000313218

⁵⁷ INQ000384971

⁵⁸ INQ000391115/24

⁵⁹ INQ000286066/7

weinidogion i herio'r dybiaeth hon. Mae Ms Rebecca Evans yn y negeseuon WhatsApp yn gwneud y pwynt bod "[...] one benefit of masks is that they are a visual reminder that coronavirus is still out there, even though we can't see it".⁶⁰ Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod yr her gwbl resymol hon wedi'i chodi gyda gwyddonwyr gan LIC.

29. Yr ail bwynt i'w gymryd o gyngor TAC 8 Mehefin 2020 yw ei fod yn nodi (p 3):

“• *There would be benefit of recommending, and in certain circumstances providing, medical masks to people who are more likely to have adverse outcomes from contracting COVID-19 (e.g. shielded individuals, BAME, homeless, over 60s).*

• *The effectiveness of medical grade face masks for personal protection is dependent upon wearing them correctly, and effort should be expended to ensure that this is effectively communicated to the public.*

• *It may be necessary for government to take steps to protect supplies of medical grade face masks, to prevent hoarding by individuals who are not in the key at risk groups.”*

30. Hefyd ar 8 Mehefin 2020, rhoddodd Syr Frank gyngor i Mr Drakeford a oedd yn nodi'n glir cyngor y WHO ar ddefnyddio gorchuddion wyneb ar gyfer grwpiau agored i niwed.⁶¹ Mae papur briffio technegol ar 9 Mehefin 2020 eto yn cyfeirio at y ddadl ynghylch a ddylid cynghori pobl agored i niwed i wisgo masgiau wyneb gradd feddygol.⁶² Trafodwyd hyn yn y galwad 9am ar 9 Mehefin 2020 cyn cynhadledd i'r wasg Mr. Gething am 12:30⁶³ pryd y cytunwyd y byddai LIC yn argymhell defnydd gorchuddion wyneb yn hytrach na mandadu ar hyn o bryd. Arweiniodd y penderfyniad hwn at ymwahanu pellach oddi wrth Lywodraeth y DU a allai achosi dryswch ac erydu ymddiriedaeth y cyhoedd. Fel y dywedodd yr Athro Ann John yn ei thystiolaeth, “it would have been very confusing to people that [...] there was one point where you had to wear a mask on the train till you got to Newport and then you could take it off. Now, there is no doubt in my mind that that [...] if we're following the science why are we coming to different conclusions, was difficult for people, and that would have had an impact on trust.”⁶⁴

31. Yr ail bwynt hollbwysig sy'n deillio o'r cyfarfod hwn am 9am ar 9 Mehefin 2020 yw bod ar rhwy adeg, rhwng cyngor TAC yn cael ei drafod ar yr alwad 9am a datganiad Mr Gething i'r wasg am 12:30pm, mae pob cyfeiriad at orchuddion wyneb gradd feddygol ar gyfer pobl agored i niwed wedi ei ddileu.⁶⁵ Golygwyd cyngor TAC a gyhoeddwyd ar wefan LIC i ddileu pob cyfeiriad at yr angen i bobl agored i niwed wisgo masgiau meddygol.⁶⁶ Cyflwynyd hyn i Toby Mason; mae ei e-byst dyddiedig 9 Mehefin 2020⁶⁷ yn adlewyrchu ymgais i “bang heads together”⁶⁸ i olygu'r datganiad i'r wasg i'w wneud yn fwy cyflawnadwy o safbwynt cyfathrebu(“comms perspective”). Fodd bynnag, fel y mae'r trywydd e-bost yn ei sefydlu, Mr. Gething oedd yn cymeradwyo'r datganiad i'r wasg yn y pen draw. Mae'n destun pryder mawr i CBFJ Cymru na cheisiodd Mr. Gething, ar ôl cael gwybodaeth lawn am fanylion cyngor WHO, sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru yn cael eu hysbysu ohono. O ganlyniad i olygu cyngor TAC a datganiad i'r

⁶⁰ INQ000316403/45

⁶¹ INQ000281742/6

⁶² INQ000118555

⁶³ INQ000349582

⁶⁴ M2B Transcript [4/119/18-25]

⁶⁵ INQ000198395

⁶⁶ INQ000311901

⁶⁷ INQ000215458

⁶⁸ INQ000388424/4

wasg Mr Gething, dilëwyd y cyfeiriad at angen pobl agored i niwed am fasgiau wyneb gradd feddygol. Yr unig dro y mae CBFJ Cymru wedi gallu nodi pan roddwyd unrhyw gyngor i'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch angen pobl agored i niwed am fasgiau meddygol oedd datganiad ysgrifenedig ar 13 Mehefin 2020.⁶⁹ Mae hyn yn cyfeirio at y ffaith bod gan fasgiau meddygol le i amddiffyn y rhai sy'n agored i niwed mewn lleoliadau risg uwch yn unig. Mae'n nodi y dylai pobl sy'n cysgodi wisgo masgiau meddygol os bydd yn rhaid iddynt fynd i mewn i gyfleuster iechyd neu ofal cymdeithasol. Mae'r datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar 13 Mehefin 2020 felly wedi'i dargedu at grŵp llawer culach o bobl oddi fewn set gulach o amgylchiadau na chanllawiau y WHO.⁷⁰ Mae hefyd yn gamarweiniol gan ei fod yn dweud bod yna *'little evidence that the more widespread wearing of medical masks benefits either staff or the public'*. Mae hyn yn groes i gyngor y WHO a chynghor yr EMG.⁷¹

32. Yr ail wahaniaeth oedd pan orchymynnodd cenhedloedd eraill wisgo gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus. Daeth gorchuddion wyneb yn orfodol ar drafnidiaeth gyhoeddus o 15 Mehefin 2020 yn Lloegr, 22 Mehefin 2020 yn yr Alban, 10 Gorffennaf 2020 yng Ngogledd Iwerddon. Cymru oedd y diweddraf o'r 4 gwlad, dim ond ar y 27 Gorffennaf 2020 fe wnaeth gorchuddion wyneb yn mandadol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae CBFJ Cymru yn gofyn i'r ymchwiliad nodi mai un o'r prif resymau a roddwyd gan Syr Frank dros beidio â gorfodi gorchuddion wyneb yn gynt oedd oherwydd y posibilrwydd o ymddygiad peryglus. Pan drafodwyd gorchuddion wyneb gan TAG ar 17 Gorffennaf 2020,⁷² roedd yr Athro Ann John yn bresennol a bu newid sylweddol yn y drafodaeth ynghylch gorchuddion wynebau. Dywedwyd, *"Historically, people's behaviours and compliance have tended to fall into line when instructed to comply with new laws and regulations — i.e, smoking in public places to prevent exposure to secondary smoke."* Nid yw'r mathau hyn o gymariaethau â newidiadau ymddygiad eraill yn ymddangos yn y cofnodion TAG cynharach. Yn mhellach, dywedir yn y cofnodion fod *"more evidence is needed on whether [Covid-19] is transmitted more by aerosols or by heavy droplets"*. Darparodd yr EMG gyngor manwl iawn ynghylch trawsyrru aerosol ar 22 Gorffennaf 2020 a gadarnhaodd fod trawsyrru aerosol yn chwarae rhan sylweddol wrth drosglwyddo Covid-19.⁷³ O ran yr agwedd gwyddor ymddygiad ar orfodi gorchuddion wyneb, awgrymwyd bod yr RCBI yn trafod gorchuddion wyneb yn eu cyfarfod cyntaf ar 22 Gorffennaf 2020. Ar 21 Gorffennaf 2020, roedd cefnogaeth gynyddol gan aelodau TAC a TAG ar gyfer defnyddio masgiau/gorchuddion wyneb⁷⁴ a gadarnhawyd wedyn yn y datganiad consensws wedi'i ddiweddarau ar orchuddion wyneb ar 23 Gorffennaf 2020⁷⁵ a arweiniodd at fandadu gorchuddion wyneb ar drafnidiaeth gyhoeddus ar 27 Gorffennaf 2020. Mae CBFJ Cymru yn haeru ei bod yn arwyddocaol ei bod yn ymddangos bod y gwrthwynebiad blaenorol i fandadu masgiau ar sail gwyddor ymddygiad, nad yw Mr Frank yn arbenigwr arni, a phan roedd gwyddonwyr ymddygiadol yn bresennol yn TAG, nid oedd

⁶⁹ INQ000421047

⁷⁰ INQ000281742/6

⁷¹ INQ000215630

⁷² INQ000221034

⁷³ INQ000212029

⁷⁴ INQ000313117

⁷⁵ INQ000385402

datganiadau o bryder am ymddygiadau peryglus wedi gwireddu. Mewn gwirionedd, roedd eu rhan yn y trafodaethau yn cyd-daro â newid mewn meddylfryd ynghylch gorchuddion wyneb.

33. O ran y tu mewn i siopau, yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, daeth gorchuddion wyneb yn orfodol ar 10 Gorffennaf 2020, ac o 24 Gorffennaf 2020 yn Lloegr. O ran mannau dan do eraill, estynnodd Lloegr y rhestr o leodd lle byddai masgiau wyneb yn orfodol ar 24 Gorffennaf 2020. Ni osododd LIC gyfyngiadau tebyg tan 14 Medi 2020. Felly, ar bob cam, roedd Cymru y tu ôl i weddill y DU.
34. Nid yw CBFJ Cymru yn gweld unrhyw gyfiawnhad rhesymol dros pam yr ymlynodd LIC mor gadarn â'r pwynt hwn o wahaniaeth ar NPI a oedd yn risg isel i'r cyhoedd a gyda'r potensial i leihau trawsyriad. Cyfaddefodd Syr Frank yn ei dystiolaeth *"all the time and energy that was spent in Wales thinking about face coverings, I do wonder whether it would have been a better decision just to simply align."*⁷⁶ Fel y dywed yr Athro John yn ei datganiad tyst, bod gwahaniaeth *"may have quite naturally raised questions about the scientific underpinnings of actions and behaviours being requested of the general public which can cause sustainable behaviours to be undermined"*.⁷⁷ Cydnabyddwyd gan Syr Frank Atherton yn ei dystiolaeth fod y sefyllfa'n "confusing".⁷⁸ Felly, ar bob cam, dylai LIC fod wedi ystyried a oedd gwahaniaeth yn debygol o danseilio ffydd y cyhoedd yn y cyngor gwyddonol, yn hytrach na chael ei arwain i lawr y llwybr hwn o ymwahanu gan CMO(W), gyda'r cyfiawnhad a gyflwynwyd gan Mr Drakefordbod bod dilyn ei gyngor gwyddonol yn angenrheidiol er mwyn cyfiawnhau penderfyniadau LIC ar NPIs.

Profi

35. Yn yr un modd â gorchuddion wyneb, roedd profi yn faes lle yr oedd LIC yn gyson y tu ôl i Lywodraeth y DU, ac nid oedd modd cyfiawnhau'r gwahaniaeth. Ar 30 Ebrill 2020, ehangodd Llywodraeth y DU y drefn brofi yn Lloegr.⁷⁹ Ar 28 Ebrill 2020, cyhoeddodd Mr. Matt Hancock y byddai rhaglen Profion Antigen Cyflym yn ehangu; ar y pryd roedd y rhaglen ond yn profi staff hanfodol y GIG yn unig. Ehangwyd y rhaglen i gynnwys ymhlith pethau eraill, yr holl weithwyr allweddol sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.⁸⁰ Roedd yr ehangu hefyd yn berthnasol yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Fodd bynnag, nid tan 16 Mai 2020 yr ehangwyd y drefn brofi yng Nghymru i gyd-fynd â'r drefn yn Lloegr.⁸¹
36. Gofynnodd y Senedd i Mr. Gething a Mr. Drakeford roi cyfrif am hyn. Dywedodd Mr. Gething ar 30 Ebrill 2020 o flaen y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: *"but there still isn't an evidence base that widespread testing for every individual, whether asymptomatic or symptomatic, is the right thing to do"* ac nad oedd yn deall y "rationale" ar gyfer dull gweithredu UKG. Eto, dywedodd Mr. Gething yn ei ddatganiad i'r wasg ar 2 Mai 2020, *"At present, the evidence does not support blanket testing – it points to testing people who have symptoms and isolating them until the test results come back."* Fodd bynnag, erbyn diwedd Ebrill 2020, roedd digon o dystiolaeth a oedd yn cadarnhau'r angen am brofion cyffredinol. Ar 8 Ebrill 2020, trafododd Grŵp Craidd Covid-19 y pryder ynghylch nifer y bobl mewn cartrefi gofal a oedd

⁷⁶ M2B Transcript [5/49/24 - 5/50/2]

⁷⁷ INQ000286066/30 Para 6.38

⁷⁸ M2B Transcript [5/49/14-15] [5/53/8-10]

⁷⁹ INQ000182446

⁸⁰ INQ000198020

⁸¹ INQ000053221

wedi'u heintio,⁸² ac eto ar 15 Ebrill 2020.⁸³ Dywed Mr. Albert Heaney yn ei ddatganiad tyst fod PHE, ar 23 neu 24 Ebrill 2020, wedi rhannu canlyniadau arolwg o gartrefi gofal a oedd yn nodi trawsyriad asymptomatig a rannwyd hyn gyda LIC. Nododd dystiolaeth ryngwladol gynyddol o drosglwyddo asymptomatig o Covid-19 mewn cartrefi gofal. Ar 28 Ebrill 2020, eiriolodd Dirprwy Brif Arolygydd CIW y dylai'r holl breswylwyr a staff gael eu profi'n rheolaidd.⁸⁴ Ar 29 Ebrill 2020 roedd e-bost a anfonwyd at Mr Heaney yn nodi, "*DM spoke with VG and FM today about testing etc. They were not convinced that there is scientific merit (nor capacity) to test sector-wide.*"⁸⁵ Ar 30 Ebrill 2020, cafwyd cyngor gweinidogol a oedd yn nodi'r dystiolaeth ar gyfer profi: "*Whilst it is unclear what role asymptomatic positive individuals play in the transmission of Covid-19 is unknown — some may never develop symptoms, for those that develop symptoms it is generally accepted that individuals may be infectious to others for up to two days prior to onset. There is some evidence to suggest that there are asymptomatic residents who are undetected and be a source of infection.*"⁸⁶ Yna dyfynnir astudiaethau peilot sy'n egluro'r rôl y mae trawsyriad asymptomatig yn ei chwarae mewn cartrefi gofal. Er bod y cyngor yn mynd ymlaen i ddod i'r casgliad nad profi oedd y "*best use of resources*", mae'r dystiolaeth ynghylch trawsyriad asymptomatig yn glir.

37. Fodd bynnag, yn ei dystiolaeth o flaen yr ymchwiliad, roedd ateb Mr. Gething i'r cwestiwn ynghylch profi yn gwbl aneglur.⁸⁷ Awgrymodd ar wahanol adegau mai'r wybodaeth oedd y broblem, ond hefyd mai adnoddau oedd y broblem. Yn anffodus, mae CBFJ Cymru o'r farn nad yw'r darlun yn gliriach ar ol i Mr. Gething roi ei dystiolaeth.
38. Siaradodd Mr Drakeford hefyd mewn cyfarfod llawn yn y Senedd ar 29 Ebrill 2020 lle cafodd ei holi am y mater o brofi. Dywedodd, "*The reason we don't offer tests to everybody in care homes, symptomatic and asymptomatic, is because the clinical evidence tells us that there is no value in doing so. Because of that, we don't do it. We offer the testing where the advice to us is that it's clinically right to do that.*" Eto, roedd hyn er gwaethaf y dystiolaeth y cyfeiriwyd ati uchod. Wrth roi tystiolaeth i'r Ymchwiliad hwn, gofynnwyd i Mr. Drakeford am y cyhoeddiad ar 2 Mai 2020 (nad oedd tystiolaeth i gefnogi profion cyffredinol). Ei ymateb oedd "*We followed the advice of the people who were charged with giving that advice and didn't pick and choose between it.*"⁸⁸ Fodd bynnag, y dystiolaeth sydd gerbron yr Ymchwiliad yw bod tystiolaeth wedi'i darparu i Lywodraeth Cymru erbyn 27 Ebrill 2020 a oedd yn dangos bod angen cynnal profion cyffredinol ar gleifion a phreswylwyr.
39. Mewn gwirionedd, roedd Dr Williams wedi bod yn dadlau o blaid rhaglen brofi ehangach llawer ynghynt. Mewn e-bost dyddiedig 1 Ebrill 2020,⁸⁹ eiriolodd dros gynnal profion rheolaidd wythnosol i weithwyr gofal cymdeithasol i roi iddynt "*routine reassurance and also set up a rhythm and acceptance of testing and self-consideration of symptoms.*" Pan roddodd dystiolaeth, cadarnhaodd fod sgrinio ar sail symptomau yn unig

⁸² INQ000311826/3

⁸³ INQ000311859/1

⁸⁴ INQ000396501

⁸⁵ INQ000385276/2

⁸⁶ INQ000116607/4 Para 16

⁸⁷ M2B Transcript [9/118-126]

⁸⁸ M2B Transcript [11/96/16-19]

⁸⁹ INQ000228309/2

yn annigonol i leihau'r risg.⁹⁰ Ymhellach, nid yw'n glir i CBFJ Cymru a oedd safbwynt LIC ar brofi wedi newid o "no value" i "value" a phryd y newidiodd y cyngor gwyddonol neu a weithredwyd y newid o ganlyniad i faterion a phwysau gwleidyddol.⁹¹

40. Pan ddaeth profion llif ochrol ar gael yn hydref 2020, fe ddaeth yn haws i sgrinio gweithwyr iechedd a gofal cymdeithasol yn fwy rheolaidd. Ar 16 Tachwedd cyflwynodd Llywodraeth y DU brofion rheolaidd i weithwyr gofal iechedd mewn ysbytai.⁹² Yn arwyddocaol, yng Nghymru fodd bynnag, dim ond ar 4 Rhagfyr 2020 y cyhoeddodd LIC yr un peth. Pan ofynnwyd iddo am hyn, nid oedd Mr. Gething yn gallu rhoi rheswm pam fod Cymru gymaint yn hwyrach na Llywodraeth y DU wrth gyhoeddi'r estyniad hwn i'r profion⁹³ er bod profion o'r fath wedi'u cyhoeddi ar ddechrau mis Rhagfyr 2020, mae'r BBC⁹⁴ yn adrodd yn eang na chafodd hyn ei gyflwyno'n briodol yn ymarferol tan ganol mis Mawrth 2021. At hynny, nid tan fis Chwefror 2021 y gwnaed y penderfyniad i brofi pob gweithiwr gofal cymdeithasol fel mater o drefn.⁹⁵

Derbyniadau Cartrefi Gofal a phrofion

41. Roedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddiogelu ysbytai, ond ni ddylai hyn fod wedi bod ar draul preswylwyr cartrefi gofal diamddiffyn a oedd i bob pwrpas dan glo, heb ymwelwyr ac heb lais. Dylai LIC fod wedi ceisio amddiffyn pobl sy'n agored i niwed mewn cartrefi gofal, ond mae'r dystiolaeth yn dangos mai prin yw'r sylw y mae LIC wedi'i roi i'w sefyllfa fregus wrth lunio ei pholisïau. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei newid polisi ar 15 Ebrill 2020 y byddai pob claf sy'n cael ei ryddhau o'r ysbyty yn cael ei brofi cyn mynd i gartrefi gofal fel mater o drefn. Cyflwynwyd profion o'r fath yn ddiweddarach yng Nghymru. Er gwaethaf polisi LIC ar 13 Mawrth 2020 i greu capasiti ysbyty drwy ryddhau'n gyflym i gartrefi gofal, nid oedd profion ar gyfer y rhai a ryddhawyd yn destun cyngor gweinidogol i Mr. Gething tan 30 Ebrill 2020 a dywed Mr. Drakeford mai ar 1 Mai 2020 ei fod wedi "*decided to approve the testing of patients on discharge from hospital to care homes*".⁹⁶
42. Pan ofynnwyd i Mr. Gething am hyn, roedd ei dystiolaeth yn gwbl aneglur ynglyn â, a oedd y diffyg profion i gleifion a oedd yn cael eu rhyddhau o ysbytai oherwydd diffyg gwybodaeth neu adnoddau.⁹⁷ Dywedodd Mr Drakeford, wrth ateb cwestiynau o Ymgyrch John, ei fod yn bwynt teg bod nifer y bobl a chafodd eu rhyddhau bob dydd o'r ysbyty heb brawf "*not enormous and maybe the amount of testing that would have been needed could have been accommodated*" ond "*that's not the advice that ministers had at the time*".⁹⁸ Gofynnir i'r Ymchwiliad nodi'r goblygiad clir, ar y pryd, na allai'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys Prif Weinidog Cymru, fod wedi bod yn rhan o unrhyw graffu difrifol ar y mater hwn a'r cyngor a roddwyd iddynt, ond eu bod wedi dilyn y cyngor heb ofyn cwestiynnau..
43. Mae'n anodd deall sut y gallai' polisi 8 Ebrill 2020 "*Admission and Care of Residents during Covid-19 incident in a residential setting in Wales*"⁹⁹ wedi cael ei ystyried yn dderbyniol o unrhyw safbwynt: roedd yn cyfeirio cartrefi gofal i dderbyn pobl a oedd yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda symptomau Covid-19,

⁹⁰ M2B Transcript [4/54/8]

⁹¹ INQ000093562

⁹² INQ000227387

⁹³ M2B Transcript [9/204/25 - 9/205/10]

⁹⁴ INQ000420994 and INQ000420993

⁹⁵ INQ000145045

⁹⁶ INQ000391237/129 INQ000371209/48

⁹⁷ M2B Transcript [9/204-205]

⁹⁸ M2B Transcript [11/217/2-5]

⁹⁹ INQ000389958/22

ac fe arhosodd yn ei le tan ddiwedd y mis hwnnw. Nid oedd hyn yn fater o brofi neu beidio â phrofi: nododd polisi derbyn 8 Ebrill, “*some of these patients may have Covid 19, whether symptomatic or asymptomatic. All these patients can be safely cared for in a care home if this guidance is followed*”. Mae’n hawdd canfod bod hyn yn golygu y gallai cartrefi gofal a oedd yn glir o Covid-19 gael achosion Covid-19 wedi’u cyflwyno’n fwriadol iddynt yn rhinwedd y polisi hwn. Pan ofynnwyd i Syr Frank Atherton yn ei gylch, ymatebodd “*the numbers were not large*”¹⁰⁰, a bod gan gartrefi gofal PPE, pan fo tystiolaeth i’r Ymchwiliad hwn yn dangos nad oedd hyn yn wir yn gyson, dyma ymateb a oedd yn peri gofid mawr i’r rhai a gollodd anwyliad mewn cartrefi gofal¹⁰¹. Dylai sut y lluniwyd y polisi hwn o gwbl, gyda phwy yr ymgynghorwyd a pha weinidogion a wnaeth ei nodi, fod yn destun craffu pellach ym Modiwl 6.

44. Dylai’r Ymchwiliad beirniadu prosesau gwneud penderfyniadau craidd LIC yng ngoleuni sylwadau a chanfyddiadau’r Comisiynydd Pobl Hŷn. Clywodd yr Ymchwiliad fod y Comisiynydd ym mis Ebrill 2020 wedi gofyn i LIC am gynllun gweithredu ar gartrefi gofal oherwydd “*there needed to be an urgency and focus that I couldn’t see at the time*” ac angen am “*faster action to protect older people*”. Ymateb LIC bryd hynny oedd na fyddai hyn yn ychwanegu gwerth, ac fe wnaeth hyn wylltio’r Comisiynydd oherwydd roedd hyn “*at a time when people were dying in care homes and families were distraught*”.¹⁰² Ar ôl ymglymiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (‘EHRC’) cytunodd LIC i’r cais ar ddiwedd mis Gorffennaf 2020. Bu’r Comisiynydd a’r EHRC yn cydweithio i graffu ar record LIC o gynnal cydraddoldeb a hawliau dynol yn ystod y pandemig rhwng mis Ebrill a mis Rhagfyr 2020 a dod i’r casgliad “*There was insufficient attention given to older people living in care homes and upholding their rights*”.¹⁰³

Cyfnod Atal Byr Hydref 2020

45. Yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref 2020, pwysleisiodd TAG a TAC fod nifer yr heintiau ar gynydd ac efallai na fydd mesurau lleol yn ddigon effeithiol i ddod â’r heintiau i lawr ar lefel y boblogaeth.¹⁰⁴
46. Mae Mr. Drakeford yn ei ddatganiad tyst, yn awgrymu mai’r rheswm na allai LIC fod wedi cychwyn cyfnod atal byr yn gynt oedd oherwydd nad oedd ganddynt ffydd y byddai Llywodraeth y DU yn cytuno i ariannu hyn¹⁰⁵. Dywed CBFJ Cymru fod hyn yn gamarweiniol am nifer o resymau:
- a. Mae’n amlwg o’r datgeliad, o ddechrau mis Hydref, bod bwriad i unrhyw cyfnod atal byr yn gydfynd â hanner tymor¹⁰⁶ mis Hydref fel bod cyn lleied â phosibl o darfu ar addysg. Gwnaed hyn yn glir hefyd yn nhystiolaeth lafar yr Athro Gravenor, fe ofynnwyd yn benodol iddo fodelu o amgylch egwyl hanner tymor yr ysgol¹⁰⁷. Fodd bynnag, nid yw hyn yn mynd i’r afael â pham na allai wythnos gyntaf y cyfnod atal byr fod yr wythnos cyn gwyliau hanner tymor, ac ail wythnos y cyfnod atal byr yn ystod egwyl hanner tymor, gan y byddai’r effaith ar addysg wedi bod yr un fath;

¹⁰⁰ M2B Transcript [5/71/23]

¹⁰¹ M2B Transcript [5/71/23-25 – 5/72/1-3]

¹⁰² [M2B Transcript [2/129/11 – 2/130/5] [2/131/1-5]

¹⁰³ INQ000276281/47-50

¹⁰⁴ INQ000313251; SAGE papers 21 September 2020; **INQ00066383** /2; INQ000228468/2;

INQ000228474/2; INQ000066408/2;

INQ000374391

¹⁰⁵ INQ000371209/70, para 227

¹⁰⁶ INQ000395839

¹⁰⁷ M2B Transcript [4/192]

b. Er gwaethaf yr ymwybodaeth o 21 Medi 2020 y byddai angen i Gymru roi mesurau cyfnod atal byr ar waith er mwyn dod â'r gyfradd R o dan 1, ni ofynnodd LIC am gyngor modelu tan 11 Hydref 2020¹⁰⁸, gan awgrymu nad oedd y diffyg gweithredu cynharach oherwydd goblygiadau ariannol cyfnod atal byr, ond diffyg cyngor a gwybodaeth wyddonol berthnasol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad. Mewn geiriau eraill, bu methiant i weithredu'n ddigon cyflym a oedd yn gymesur â'r risg a wynebai Cymru;

c. Roedd cyllid furlough eisoes yn ei le; yr hyn yr oedd LIC yn ei geisio oedd i'r cynllun newydd gael ei ddwyn ymlaen. Fodd bynnag, nid yw'n gywir dweud nad oedd cyllid ar gael o gwbl. Nodwyd y pwynt hwn yn glir gan y Cadeirydd;

d. Yn y bôn, gosododd LIC y cyfnod atal byr yn ei le heb i'r cynllun ariannu newydd gael ei ddwyn ymlaen gan Lywodraeth y DU a roeddent yn medru dod o hyd i gyllid ychwanegol o'r ffrydiau ariannu a oedd eisoes ar gael iddynt¹⁰⁹;

e. Yn olaf, ni ofynnodd LIC am arian yn ddigon cynnar.

47. Er bod Mr. Drakeford wedi awgrymu yn ei dystiolaeth ei fod wedi bod yn gofyn i Lywodraeth y DU am arian ychwanegol ers mis Medi, yn benodol, gan ddibynnu ar gofnodion COBR 22 Medi 2020, mae'n amlwg o'r cofnodion hynny bod Mr. Drakeford yn siarad trwy'r adeg yn gyffredinol ynghylch cyllid er mwyn i lywodraethau datganoledig weithredu'n annibynnol o Lywodraeth y DU os yw'r amgylchiadau'n caniatáu hynny. Y tro cyntaf i LIC ysgrifennu yn gofyn am gyllid ar gyfer cyfnod atal byr penodol yn cychwyn ar 23 Hydref 2020 oedd ar 16 Hydref 2020¹¹⁰. Honnir na ddylai fod wedi bod yn syndod i LIC nad oedd Llywodraeth y DU yn mynd i ddod â'r cynllun ymlaen mewn pryd ar gyfer y cyfnod atal byr o ystyried pa mor hwyr oedd cais LIC.

48. Collodd LIC nifer o gyfleoedd i gysylltu â Llywodraeth y DU i ofyn am y cyllid yr oeddynt am gael cyn 16 Hydref 2020; yn gyntaf, ar 5 Hydref 2020 yn ystod galwad CDL¹¹¹. Mewn e-bost a anfonwyd am 10:48 y bore hwnnw, awgrymodd Ms Bennee y dylai Mr Drakeford drafod ariannu cyfnod atal byr yr Hydref gyda Michael Gove. Digwyddodd yr alwad honno am 15:45 y prynhawn hwnnw a dim ond trafodaeth ariannol i'r gwledydd datganoledig mewn perthynas â chyllid Haen 3, ac eto, yn yr ystyr mwyaf cyffredinol, y bu Mr. Drakeford yn ei drafod¹¹². Mae dogfennau'n awgrymu na wnaeth Mr. Drakeford yr hyn a awgrymodd Ms Bennee sef i "*ask CDL whether they are willing to provide economic support for a firebreak/circuit breaker around half term.*" Mae'n ymddangos o ddogfennau y bu methiant pellach i godi'r mater cyfnod atal byr yr Hydref yng ngalwad HMT ar 7 Hydref 2020¹¹³, eto yn COBR ar 12 Hydref 2020¹¹⁴, ac eto mewn galwad HMT ar 14 Hydref 2020¹¹⁵, er gwaethaf y ffaith iddo ofyn am gyngor modelu yr Athro Michael Gravenor Cyngor erbyn yr adeg hwn, a'r cyfnod cloi atal byr yn amlwg o fewn ystyriaeth LIC wrth i'r Cabinet benderfynu gweithredu cyfnod atal byr y diwrnod wedyn. Felly, yn ôl y dogfennau, yn groes i'r hyn a awgrymwyd gan Mr. Drakeford yn ei dystiolaeth, y tro cyntaf i Lywodraeth y DU dderbyn cais ffurfiol,

¹⁰⁸ INQ000374391

¹⁰⁹ INQ000227915

¹¹⁰ INQ000216554

¹¹¹ INQ000395839

¹¹² INQ000198969/3

¹¹³ INQ000353150

¹¹⁴ INQ000083851

¹¹⁵ INQ000353157

penodol, am arian at ddiben penodol cyfnod atal byr oedd ar 16 Hydref 2020, dim ond 7 diwrnod cyn i'r cyfnod atal byr gael ei weithredu.

49. Mae LIC yn awgrymu mai'r rheswm na allent wedi cael cyfnod atal byr hirach oedd oherwydd bod Llywodraeth y DU wedi gwrthod darparu cyllid ychwanegol. Haerir bod yn rhaid diystyru'r awgrym hwn oherwydd erbyn hyn y byddai Cymru wedi bod yn nhrydedd wythnos y cyfnod atal byr (h.y. y tu hwnt i 9 Tachwedd 2020), byddai'r cynllun newydd wedi bod mewn grym, gan iddo ddod i rym ar 1 Tachwedd 2020. Felly, ni all diffyg cyllid fod y rheswm pam na weithredwyd y cyfnod atal byr am gyfnod hirach. Cyngor clir y CSA ar gyfer iechyd, Dr Rob Orford, oedd cyfnod atal byr hirach. Mewn e-byst dyddiedig rhwng 14 Hydref 2020 a 15 Hydref 2020, dywedodd: "*The take home message is that is we act sooner (the end of this week) and for longer (3 weeks, rather than 2) we will have a greater impact in terms of weeks gained (with rate of deaths as a measure of success)*"¹¹⁶. Rhoddwyd y cyngor hwn ar y rhagdybiaeth y byddai'r cyfyngiadau symud cyfnod atal byr yn cael eu gosod erbyn diwedd yr wythnos yn dechrau 11 Hydref 2020.
50. Mae tystiolaeth yr Athro Gravenor yn dangos y byddai cyfnod atal byr cynharach a hirach wedi lleihau'r colledion bywyd yn yr ail don. Dywed "*earlier would have helped*"¹¹⁷ a "*I do think it should have been longer. A longer firebreak could have -- given how effective it was, given how effective it was in reducing Rt a longer firebreak would have set -- if that, if those benefits had continued, it would have set the prevalence down to a very low level, and then we would have headed toward December. I think a four-week firebreak would have put the reset time deep into December*"¹¹⁸. Dywedodd y byddai cyfnod atal byr pedair wythnos wedi prynu saith i naw wythnos,¹¹⁹ ac erbyn hynny byddai'r rhai mwyaf agored i niwed wedi elwa o gyflwyno'r brechlyn. Fodd bynnag, fel y cadarnhawyd gan dystiolaeth yr Athro Ian Diamond, "*During the second wave mortality in Wales was the highest of the four administrations across the UK.*"¹²⁰
51. Ymddengys nad oedd cyfnod atal byr hirach yn rhan o feddwl LIC ar y pryd. Cadarnhaodd yr Athro Gravenor, erbyn iddo gael ei gomisiynu i ddarparu cymorth modelu ar 11 Hydref 2020, mai'r syniad o fewn LIC oedd y byddai'r cyfnod atal byr am 2 neu 3 wythnos gan mai dim ond y modelau penodol hynny cafodd eu gomisiynnu. O gofnodion y Cabinet ar 15 Hydref 2020¹²¹, mae'n ymddangos mai ychydig iawn o ddadleuon sydd wedi bod ynghylch hyd y cyfnod atal byr, er gwaethaf cyngor gwyddonol "*a minimum of a two week lockdown was required but three weeks was preferable*" wedi cael ei wneud yn glir i'r gweinidogion. Mae'n ymddangos bod cyfnod atal byr am bythefnos ac yn dechrau gyda hanner tymor wedi dod yn *fait accompli* ymhell cyn gofyn i'r Athro Gravenor fodelu cynfnodau o 2 a 3 wythnos a phan ofynnwyd i'r Cabinet wneud penderfyniad ffurfiol.

DNACPR ("Do Not Attempt Cardiopulmonary Resuscitation")

52. Mae gan CBFJ Cymru bryderon sylweddol ynghylch y defnydd o DNACPR. Cafodd y mesur yma ei ddefnyddio yng nghyswllt llawer o anwyliad grŵp Cymru heb broses briodol. Ar 1 Ebrill 2020 fe wneath y Comisiynydd Pobl Hŷn, Ms Helena Herklots, "*issued a public statement and gave a television interview*

¹¹⁶ INQ000385731

¹¹⁷ M2B Transcript [4/175/6]

¹¹⁸ M2B Transcript [4/175/12-21]

¹¹⁹ M2B Transcript [4/193/4]

¹²⁰ M2B Transcript [3/80/11-12]

¹²¹ INQ000048796

following the shocking letter sent on 27 March 2020 by a surgery to some of its patients saying that they would like to complete a Do Not Attempt CPR form ("a DNACPR form") for them"¹²². Dywedodd fod y llythyr, a anfonwyd at gleifion â chyflyrau iechyd difrifol, yn dweud wrthynt eu bod nhw'n "unlikely to be offered hospital admission" os aethant yn sâl gyda'r coronafeirws a "certainly will not be offered a ventilator bed" a byddai cwblhau'r ffurflen DNACPR "will mean that in the event of a sudden deterioration in your condition because of a Covid-19 infection or disease progression the emergency services will not be called and resuscitation attempts to restart your heart or breathing will not be attempted." a bod "listed benefits to the completion of a DNACPR form including that scarce ambulance resources can be targeted to the young and fit who have chance of surviving the infection"¹²³. Disgrifiodd Ms Herklots y trallod a achoswyd gan y llythyr. Cyhoeddwyd datganiad ar y cyd ar 6 Ebrill 2020 yn nodi, "age, disability or long term condition alone should never be a sole reason for issuing a DNACPR order against an individual's wishes"¹²⁴. Mewn tystiolaeth lafar nododd faterion yn ymwneud â DNACPR, ynghyd ag "number of different things happened which, cumulatively, older people who were talking to me or talking to other older people which was being reported to me, there was certainly feeling that -- that sense of, yeah, just not being valued"¹²⁵. Mae CBFJ Cymru yn rhagweld archwiliad manwl pellach o'r defnydd o DNACPRs ym Modiwlau 3 a 6.

Cynhaliath Profedigaeth

53. Roedd y ffilmau effaith a'r dystiolaeth bwyrus o'r rhai mewn profedigaeth yn M2B yn atgof torcalonnus diriaethol o golli bywyd ond hefyd y trawma a brofwyd gan y rhai mewn profedigaeth. Yn erbyn y cyddestun hwn, dywedodd Ms Grant o CBFJ Cymru yn ei thystiolaeth 'We have over, I think it's 400 members, and not one person has been offered bereavement support.'¹²⁶ Pan holwyd Ms Eluned Morgan am gymorth profedigaeth¹²⁷ dywedodd fod y Llinell Gymorth Iechyd Meddwl ar gael i gefnogi yn ystod y pandemig. O dan graffu gan y CTI a'r Cadeirydd, derbyniodd Ms Morgan fod y Llinell Gymorth Iechyd Meddwl yn darparu cymorth iechyd meddwl yn hytrach na chymorth profedigaeth penodol ac na fyddai'r rhai mewn profedigaeth o reidrwydd wedi ystyried eu hunain yn dioddef o broblem iechyd meddwl. Mae CBFJ Cymru yn nodi, er gwaethaf y trawma a'r trallod anochel a wynebwyd ganddynt, nad oedd y rhai mewn profedigaeth yn cael eu cefnogi.

Cysylltiadau Rhynglywodraethol

54. Mae CBFJ Cymru yn ailadrodd yr hyn a ddywedwyd ganddynt yn eu Datganiad Clo yn M2 y dylai cysylltiadau rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig (DAs) yn ystod y pandemig fod wedi'u cynnal yn y ffordd orau a oedd wedi hyrwyddo am ymateb effeithiol i'r pandemig ar draws y DU gyfan; a bod hyn yn aïgrymu ymdrech i lle bo'n bosibl i ddod i gytundeb ar bolisïau cyffredin a lle mae polisi'n amrywio, rhannu gwybodaeth er mwyn i genhedloedd allu cydgysylltu gweithrediad eu priod bolisïau a chyhoeddiadau cyhoeddus: dull Pedair Gwlad wir.

¹²² INQ000181737

¹²³ INQ000276281/11 para 3.22

¹²⁴ INQ000184964/2 and INQ000276281/11 para 3.25

¹²⁵ M2B Transcript [2/127 – 128]

¹²⁶ M2B Transcript [2/16/7]

¹²⁷ M2B Transcript [10/32-33]

55. Yn ystod y pandemig, nid oedd y pethau yr oedd angen iddynt fod ar waith i gefnogi dull Pedair Gwlad yn ei le. Fel y nodir yn Natganiad Clo CBFJ Cymru yn M2, roedd diffyg fforwm ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd rhwng Prif Weinidogion Cymru a Phrif Weinidog y DU. Roedd yna feddylfryd anghywir ar frig Llywodraeth y DU, sef bod angen i'r DAs gael eu "*managed*" yn hytrach na gweithio gyda nhw. Argymhelliad CBFJ Cymru yn eu Datganiad Clo yn M2, yw bod rhaid cael strwythur ffurfiol a fyddai, mewn cyfnod o argyfwng hir fel pandemig, yn darparu ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd rhwng Prif Weinidog y DU a Phrif Weinidogion y DAs. Hefyd mae angen safbwynt ar bob ochr o geisio gweithio gyda'i gilydd i wneud y mwyaf o'r siawns o fabwysiadu polisïau cyffredin, lle bo'n briodol, ac fel arall i rannu gwybodaeth a chydgyssylltu camau gweithredu a negeseuon.
56. Ar ôl clywed y dystiolaeth yn M2B, mae CBFJ Cymru yn credu bod angen y sylwadau pellach canlynol. Er bod y strwythurau ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol ar lefel Prif Weinidog Cymru – y Prif Weinidog y DU yn annigonol, roedd cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd rhwng LIC a Llywodraeth y DU. Er enghraifft, roedd cyfarfodydd rheolaidd rhwng pedwar Prif Swyddog Meddygol y DU a rhwng y pedwar gweinidog iechyd. Mae'n syndod darllen dystiolaeth Mr. Gething fod cyngor iddo ar 30 Ebrill 2020 am brofion ar ryddhau o'r ysbty i gartrefi gofal yn cynnwys y datganiad "*officials were not provided with full details of UK policy*"¹²⁸, ac yn nghofnod y drafodaeth a ddilynodd, y sylw: "*There was a 4 nations group on testing but Wales did not seem to be fully plugged in*"¹²⁹; hefyd yng nghofnodion Cyfarfod y Grŵp Craidd ar 6 Mai 2020 mae cofnod, "*It had been difficult to obtain clarity from the UKG on its policy for England*" (mewn perthynas â pholisi ar brofi'r holl breswylwyr a staff mewn cartrefi gofal lle bu nifer of achosion)¹³⁰. Nid yw CBFJ Cymru yn gweld unrhyw reswm da pam na ellid bod wedi cael gwybodaeth am bolisi Llywodraeth y DU mewn meysydd allweddol pe bai ymdrechion LIC wedi'u canolbwyntio a'u cyfeirio'n briodol, a phe bai diffygion mewn gwybodaeth am yr hyn yr oedd Llywodraeth y DU yn ei wneud ar y materion allweddol y cyfeiriwyd atynt wedi'u hosgoi. Dylai'r Ymchwiliad ganfod na chymerodd LIC ymagwedd ddigon rhagweithiol at y meysydd polisi hyn, a'i bod yn tueddu i feio Llywodraeth y DU pan oedd LIC ar ei hôl hi o ran diweddarau ei pholisïau.
57. Er bod amgylchiadau lle na fyddai cael polisi cyffredin â Llywodraeth y DU wedi bod yn opsiwn cywir (e.e. roedd y penderfyniad i beidio â newid i "*Stay Alert*" ym mis Mai 2020 yn gywir), mae CBFJ Cymru hefyd o'r farn, o ystyried bod y wyddoniaeth sylfaenol yn amlwg yr un fath, ni roddodd LIC ddigon o bwys yn ei phenderfyniadau ar fanteision mabwysiadu'r un polisi ar draws y DU, sef cryfhau negeseuon cyhoeddus, cynyddu hyder y cyhoedd mewn mesurau ac osgoi dryswch. Dylai'r ffactorau hyn fod wedi pwysu'n drymach yn y cydbwysedd wrth wneud penderfyniadau na wnaethon nhw.. Roedd yr enghraifft amlycaf o hyn yn ymwneud â phenderfyniadau LIC ar orchuddion wyneb.
58. **Argymhellion:** Mae CBFJ Cymru yn gwahodd ystyriaeth o'r canlynol:
- (i) **Cysylltiadau rhynglywodraethol:** Dylai fod:

¹²⁸ INQ000391237/129

¹²⁹ INQ000116607/11

¹³⁰ INQ000336509/1

- (a) Fforwm a strwythur ffurfiol ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd rhwng Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU yn ystod cyfnod o argyfynging hirfaith megis pandemig;
- (b) Cydnabyddiaeth gan bob un o'r Pedair Gwlad o fanteision dull gweithredu y cytunwyd arno ar draws y Pedair Gwlad ac ymrwymiad i ymdrechu i ddod i gytundeb lle bo modd; lle nad ydychwylly'n bosibl, cydgysylltu camau gweithredu a rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau polisi allweddol cyn gynted â phosibl fel y gall pob cenedl ystyried y goblygiadau i'w tiriogaeth
- (ii) **Rhannu arbenigedd gwyddoniaeth ar draws y Pedair Gwlad:** dylai hygyrchedd cyngor a strwythurau gwyddoniaeth y DU i LIC (SAGE a'i is-bwyllgorau a NERVTAG) gael eu cryfhau drwy wahodd Gweinyddiaethau Datganoledig i fod yn bresennol o'r cychwyn (fel cyfranogwyr neu, os yn briodol, sylwedyddion) pob grŵp a phwyllgor allweddol gyda mynediad llawn i'r holl ddogfennaeth berthnasol.
- (iii) **Seilwaith iechyd cyhoeddus i Gymru:** dylai fod â'r gallu i gynyddu profion torfol yn gyflym a gweithrediadau profi ac olrhain ("test and trace") ar raddfa eang.
- (iv) **Gallu LIC i wneud penderfyniadau:** Dylai LIC adolygu ei strwythurau a'i phrosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan ystyried:
 - (a) yr angen i sbarduno ymateb cynnar gan y Llywodraeth gyfan i fygythiad sy'n dod i'r amlwg ac am arweiniad gwybodus gan weinidogion yn gynnar yn y broses (nid gan ei CMO(W) ac ICC yn unig);
 - (b) bod yn rhaid i weinidogion graffu ar y cyngor a gânt cyn gwneud penderfyniadau polisi yn hytrach na dilyn y cyngor a roddir iddynt yn oddefol ac heb godi cwestiynnau (e.e. craffu ar pam mae'r cyngor gwyddonol y maent yn ei gael yn ahanol i'r cyngor a roddir yng ngolydd eraill y DU; pa bolisiâu y mae golydd eraill y DU yn eu cael wedi mabwysiadu ar yr un pŵnc);
 - (c) yr angen am gyfathrebu mewnol effeithiol o fewn LIC o wybodaeth allweddol (e.e. asesiad risg ffurfiol o CMOs y DU; o arsylwadau allweddol gan SAGE a COBR ynghylch graddau'r risg a sut mae Llywodraeth y DU yn ymateb iddi);
 - (d) yr angen i ymchwilio'n rhagweithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus addas mewn pandemig ar fesurau niwed isel i leihau lledaeniad heintiau (e.e. gwisgo masgiau addas, aïyru dan do; negeseuon cyhoeddus).
- (v) **Penderfyniadau craidd ar amddiffyn a rheoli heintiau - trawsyriad yn yr awyr:**
 - (a) Dylai goblygiadau trawsyriad aerosol SARS-CoV-2 gael eu hadlewyrchu mewn mesurau atal a rheoli heintiau trwy ganolbwyntio mwy ar wisgo masgiau addas mewn gofal iechyd ac yn gyffredinol yn y gymuned yn ystod pandemig;
 - (b) Dylid gorfodi safonau dylunio ar gyfer aïyru adeiladau;
 - (c) Sylw i negeseuon cyhoeddus ar yr angen am awyru i atal trawsyriad yn yr awyr.
- (vi) **Penderfyniadau craidd ar atal a rheoli heintiau - trawsyriad asymptomatig:**
 - (a) Dylai llunwyr polisi fynd ati'n rhagweithiol i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf am ddulliau trawsyriad firs fel sylfaen hanfodol ar gyfer llunio polisiâu;

(b) Dylent gymryd i ystyriaeth yr angen am ddull rhagofalus lle gall y wyddoniaeth fod yn ansicr hyd yma ond bod posibilrwydd o niwed difrifol (fel y posibilrwydd o drawsriad asymptomatig yn effeithio ar breswylwyr agored i niwed mewn cartref gofal).

(vii) **Gofal Cymdeithasol:** Tra bydd y maes hwn yn cael ei archwilio mewn modiwl yn y dyfodol, mae'r canlynol yn ymwneud â gwneud penderfyniadau craidd:

(a) Rhaid i benderfyniadau ar greu capasiti ysbytai nodi ac ystyried holl oblygiadau polisïau o'r fath i'r sector gofal cymdeithasol;

(b) Dylai penderfynwyr ar bolisi roi sylw cyn gynted â phosibl i'r amrywiaeth o ffyrdd y gellir cyflwyno haint i amgylchedd hynod agored i niwed, sef cartref gofal (e.e. symudiadau staff, rhyddhau o'r ysbyty i gartrefi gofal) a pholisïau perthnasol ar gyfer lleihau hyn;

(c) Dylai data perthnasol ar y sector, gan gynnwys cartrefi gofal, fod ar gael yn hawdd i'r rhai sy'n g□neud penderfyniadau;

(d) Sylw cynnar i anghenion y rhai mewn cartrefi gofal a'r rhai sy'n ddibynol ar y sector gofal cymdeithasol, er y gall darparwyr gofal fod yn fentrau preifat (e.e. cymorth gyda PPE).

(viii) **Gwasanaethau cymorth profedigaeth:** dylent fod ar waith ac yn hygyrch i bawb a all fod eu hangen (nid fel rhan o wasanaethau iechyd meddwl yn unig).

59. **Sylw i gloi.** Mae CBFJ Cymru yn hynod o siomedig, hyd yn oed wrth roi tystiolaeth, nad oedd cynrychiolwyr LIC wedi dangos llawer o fewnwelediad i'w camgymeriadau a'u gwallau a'r hyn y gellid ac y dylid bod wedi'i wneud yn well, gan ddibynnu, yn lle hynny, ar gyfeiriadau anghyfiawn, at y fantais o edrych yn ôl a diffyg gwybodaeth, er gwaethaf dangos diffyg rhagweithioldeb. Roedd methiannau sylweddol yn y ffordd y cynhaliodd LIC ei phenderfyniadau craidd yn ystod y pandemig, a diffyg truenus o arweinyddiaeth strategol genedlaethol. Roedd hyn ar draul pobl yng Nghymru ac yn enwedig y rhai oedd fwyaf agored i niwed o'r firws. Mae CBFJ Cymru yn gwahodd yr Ymchwiliad hwn i adlewyrchu hyn yn ei ganfyddiadau.

CRAIG COURT
HARDING EVANS SOLICITORS

BETHAN HARRIS
KIRSTEN HEAVEN
NIA GOWMAN
LAURA SHEPHERD
BARGYFREITHWYR
11 Ebrill 2024